

**CYNGOR SIR FYNWY**  
**GORCHYMYN CYFUNO RHEOLIADAU TRAFFIG, TERFYNAU CYFLYMDER A**  
**PHARCIO CYNGOR SIR FYNWY 2019**  
**(GORCHYMYN DIWYGIO RHIF 19) 2026**

**DARPARIAETH A DIWYGIADAU ARFAETHEDIG I DRAFFIG**  
**GORCHMYNION O FEWN AMRYWIOL GYMUNEDAU YN SIR FYNWY**

**EFFAITH Y GORCHYMYN:**

- Cyflwyno Cyfyngiad Pwysau Strwythurol o 7.5t ar Draphont Gilwern yr A4077 , Gilwern .
- Cyflwyno Gwaharddiad Gyrru â Chyfyngiad Amser (Yn ystod y tymor yn unig, 08:30-09:00 a 15:00-15:40) - Ac eithrio deiliaid trwyddedau a deiliaid Bathodyn Glas ar Heol Harold, Y Fenni.
- I ddirymu Gwaharddiad Cerbydau Modur ar Heol Glynwood , Pont-y-season , Tyndyrn.

**DATGANIAD O RESYMAU**

Cyflwynir y cynigion a amlinellir yn y Gorchymyn Diwygio hwn gan Gyngor Sir Fynwy yn ei swyddogaeth fel yr awdurdod priffyrdd. Mae'r Awdurdod yn arfer ei bwerau statudol o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (RTRA 1984) a Deddf Rheoli Traffig 2004 (TMA 2004), sydd gyda'i gilydd yn darparu'r fframwaith cyfreithiol i awdurdodau lleol reoli a rheoleiddio traffig ar eu rhwydweithiau ffyrdd.

Mae'r diben y cynigir y gorchymynion hyn ar ei gyfer yn amlochrog, gan gyd-fynd yn uniongyrchol â'r amcanion a nodir yn Adran 1 a 2 o Ddeddf RTRA 1984 ac yn dilyn ystyriaeth o'r materion a nodir yn Adran 122. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Er mwyn osgoi perygl i bobl neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd neu unrhyw ffordd arall.
- Er mwyn hwyluso tramwyo unrhyw fath o draffig ar y ffordd, gan gynnwys cerddwyr.
- Er mwyn atal y ffordd rhag cael ei defnyddio gan draffig cerbydau o fath sydd, neu ei defnyddio gan draffig cerbydau mewn modd sydd, yn anaddas, o ystyried cymeriad presennol y ffordd neu'r eiddo cyfagos.
- Er mwyn gwarchod amwynderau'r ardal y mae'r ffordd yn rhedeg drwyddi.

Mae pob un o'r cynigion a nodir yn y datganiad hwn yn ganlyniad proses adolygu drylwyr ac yn ymateb uniongyrchol i bryderon a cheisiadau a dderbyniwyd gan drigolion lleol , cynghorau cymuned, ac aelodau etholedig o'r ward. Maent yn adlewyrchu ymrwymiad i ddull rhagweithiol ac ymatebol o reoli priffyrdd, gan fynd i'r afael â materion lleol i wella diogelwch, hygyrchedd, ac amgylchedd cyffredinol y priffyrdd i bob defnyddiwr. Mae'r mesurau a gynigir wedi'u cynllunio i fod yn effeithiol ac yn gymesur â'r problemau a nodwyd, gan sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lleihau a'u lliniaru'n briodol.

<b>Rhif Lluniad</b>	<b>Enw(au) Ffordd Gysylltiedig</b>	<b>Manylion</b>
<b>2279</b>	<b>A4077 Traphont Gilwern, Gilwern.</b>	<p><b>Cyfyngiad Pwysau Strwythurol Arfaethedig o 7.5t.</b></p> <p>Diben y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig hwn yw cyflwyno cyfyngiad pwysau strwythurol o 7.5 tonnell ar Draphont Gilwern ar yr A4077. Bwriad y Gorchymyn yw sicrhau bod math a natur y cyfyngiad pwysau sy'n berthnasol yn y lleoliad hwn yn adlewyrchu nodweddion a gwendidau'r strwythur yn gywir ac yn darparu lefel briodol a chymesur o ddiogelwch.</p> <p>Yn hanesyddol, mae'r draphont wedi'i harwyddo fel cyfyngiad pwysau amgylcheddol o 7.5 tonnell. Fodd bynnag, yn dilyn yr angen am waith atgyweirio brys ac asesiad strwythurol cyfatebol o'r draphont, daeth yn</p>

		<p>amlwg mai'r ffactor rheoli ar gyfer llwytho cerbydau yn y lleoliad hwn yw capasiti strwythurol y bont yn hytrach nag ystyriaethau amgylcheddol. Tynnodd hyn sylw at yr angen i alinio sail gyfreithiol y cyfyngiad â'r risg y bwriedir iddi ei rheoli.</p> <p>Yn ystod y cyfnod pan gynhaliwyd gwaith brys, gweithredwyd cyfyngiad pwysau strwythurol dros dro o 3 tunnell i sicrhau diogelwch uniongyrchol y strwythur a'r cyhoedd sy'n teithio. Yn dilyn cwblhau'r gwaith hwn ac adolygiad pellach o gyflwr y bont, penderfynwyd y bydd terfyn parhaol o 7.5 tunnell yn briodol, ar yr amod bod hyn yn cael ei sefydlu'n gywir fel cyfyngiad pwysau strwythurol.</p> <p>Felly, bydd cyflwyno'r Gorchymyn hwn yn ffurfioli cyfyngiad pwysau strwythurol o 7.5 tunnell ar Draphont Gilwern yr A4077 , gan sicrhau cysondeb rhwng y Gorchymyn cyfreithiol, arwyddion ar y stryd a'r asesiadau strwythurol sylfaenol. Bydd hyn yn darparu eglurder i ddefnyddwyr ffyrdd ac awdurdodau gorfodi ac yn sicrhau bod llwytho cerbydau'r bont yn cael ei reoli mewn modd sy'n diogelu ei chyfanrwydd hirdymor .</p> <p>Ystyrir bod y cyfyngiad yn angenrheidiol er budd diogelwch priffyrdd, amddiffyn seilwaith y priffyrdd a pharhad argaeledd y draphont fel rhan ddiogel a dibynadwy o'r rhwydwaith ffyrdd lleol.</p>
22 80	Glynwood , Pont-y-seison, Tyndyrn.	<p><b>Dirymiad Arfaethedig o'r Gwaharddiad Gyrru Presennol.</b></p> <p>Diben y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig hwn yw dirymu'r Gwaharddiad Cerbydau Modur presennol ar Heol Glynwood , Pont-y-seison, Tyndyrn. Cyflwynwyd y gwaharddiad yn flaenorol fel rhan o Orchymyn Rheoleiddio Traffig cynharach yn dilyn proses ymgynghori statudol.</p> <p>Yn dilyn gwneud y Gorchymyn hwnnw, codwyd pryderon a heriwyd y broses ymgynghori gan sefydliad annibynnol. Yng ngoleuni'r her hon, a heb ragfarnu rhinweddau nac amcanion y cyfyngiad gwreiddiol, mae'r awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol dirymu'r gwaharddiad presennol er mwyn sicrhau eglurder cyfreithiol, cadernid gweithdrefnol a thryloywder.</p> <p>Bydd dirymu'r Gorchymyn yn dileu unrhyw ansicrwydd ynghylch dilysrwydd y cyfyngiad presennol a bydd yn caniatáu i'r awdurdod gynnal adolygiad llawn o'r cyfyngiad. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod unrhyw gynigion rheoleiddio traffig yn y dyfodol sy'n effeithio ar Heol Glynwood yn cael eu datblygu trwy broses ymgynghori sy'n gynhwysfawr, yn gyfreithiol gadarn ac yn cydymffurfio'n llawn â gofynion statudol.</p> <p>Bwriad yr awdurdod yw, yn dilyn y dirymiad hwn a'r adolygiad dilynol, y gellir ailystyried y cyfyngiad ac, os yw'n briodol, ei gyflwyno eto trwy Orchymyn Rheoleiddio Traffig newydd gydag ymgynghoriad newydd yn y</p>

		<p>dyfodol. Bydd hyn yn galluogi ymgynghori'n briodol â phob plaid a rhanddeiliad sydd â diddordeb a bydd yn cefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus er budd y cyhoedd.</p> <p>Felly, ystyrir bod y dirymiad yn angenrheidiol er budd llywodraethu da, sicrwydd cyfreithiol a thegwch, ac i sicrhau bod unrhyw fesurau rheoli traffig yn y dyfodol ar Heol Glynwood yn cael eu gweithredu ar sail gyfreithiol glir ac amddiffynadwy er mwyn i ddarpariaethau yn y dyfodol fod yn orfodadwy a gwireddu bwriad y mesur sef sicrhau diogelwch cerddwyr a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.</p>
22 81	Heol Harold, Y Fenni.	<p><b>Gwaharddiad Gyrru Amser Cyfyngedig (Yn ystod y tymor yn unig, 08:30-09:00 a 15:00-15:40) - Ac eithrio deiliaid trwydded a deiliaid Bathodyn Glas.</b></p> <p>Diben y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig hwn yw cyflwyno gwaharddiad gyrru â chyfyngiad amser ar Heol Harold, Y Fenni, a fydd ar waith yn ystod tymor yr ysgol yn unig rhwng 08:30 a 09:00 a 15:00 a 15:40, gydag eithriadau i ddeiliaid trwyddedau a deiliaid Bathodyn Glas.</p> <p>Bwriad y Gorchymyn hwn yw disodli a gwneud y trefniadau a weithredwyd yn flaenorol o dan Orchymyn Strydoedd Ysgol Arbrofol yn barhaol.</p> <p>Dangosodd y cynllun arbrofol fod cyfyngu mynediad i gerbydau yn ystod oriau brig cyrraedd ac ymadael yr ysgol yn gwella diogelwch ac amodau y tu allan i'r ysgol. Bydd gwneud y darpariaethau'n barhaol yn sicrhau trefniant cyson a gorfodadwy sy'n parhau i amddiffyn disgyblion, rhieni, staff yr ysgol a defnyddwyr ffyrdd eraill.</p> <p>Mae cyflwyno'r Gorchymyn hwn yn angenrheidiol i wella diogelwch cerddwyr drwy leihau symudiadau cerbydau yn ystod cyfnodau o weithgarwch cerddwyr uchel, yn enwedig ar adegau pan fo plant yn teithio i'r ysgol ac yn ôl ac yn fwyaf agored i niwed. Bydd hefyd yn helpu i leihau tagfeydd a lleihau gwrthdaro posibl rhwng cerbydau a cherddwyr yn uniongyrchol y tu allan i flaen yr ysgol.</p> <p>Yn ogystal, bydd y Gorchymyn yn cyfrannu at greu amgylchedd mwy diogel, tawel a mwy dymunol drwy leihau sŵn ac allyriadau cerbydau yn ystod cyfnodau hollbwysig o'r diwrnod ysgol. Drwy wella diogelwch ac ansawdd y strydlun, mae'r Gorchymyn yn cefnogi ac yn annog teithio llesol, gan gynnwys cerdded, gyrru ar olwynion a beicio, ar gyfer teithiau ysgol.</p> <p>At ei gilydd, ystyrir bod y Gorchymyn yn angenrheidiol i hwyluso defnydd diogel a chyfleus o'r briffordd, cefnogi amcanion teithio cynaliadwy a darparu manteision diogelwch ffyrdd hirdymor i'r gymuned leol, gan gadw mynediad priodol i ddefnyddwyr sydd wedi'u heithrio.</p>